# Atebion i Gwestiynau nas cyrhaeddwyd yn y Cyfarfod Llawn
# 15 Ionawr 2003

[R] yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.
[W] yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.

**Cynnwys**

1 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
2 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

### Amseroedd Aros o fewn y GIG

**C10 Cynog Dafis:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar amseroedd aros o fewn y GIG? (OAQ21750) [W]

**Y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (Jane Hutt):** Ers i mi wneud cyhoeddiad ym mis Gorffennaf 2001 ynghylch strategaeth newydd ar amseroedd aros, mae cryn fuddsoddiad wedi'i wneud er mwyn gostwng amseroedd aros. Yr ydym wedi gweld gwelliannau yn y meysydd y rhoddir blaenoriaeth iddynt, sef llawdriniaeth ar y galon ac orthopedeg. Yr ydym am weld y gwelliant hwn ym mhob maes, ac mae'r tîm arloesi mewn gofal yn cynorthwyo'r gwasanaeth iechyd gwladol i foderneiddio'r ffordd y mae'n rheoli ac yn darparu gofal i gleifion.

### Diwygiad Arfaethedig y GIG

**C11 Geraint Davies:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar sut y bydd yn gweithredu argymhellion Syr John Bourn o ran y diwygiad arfaethedig o'r GIG? (OAQ21724)

**Jane Hutt:** Yr wyf yn ddiolchgar i Archwilydd Cyffredinol Cymru am gynnal adolygiad annibynnol o gyllidebau costau trosglwyddo a chynnal y strwythurau newydd. Gwna'r adolygiad gyfres o awgrymiadau defnyddiol—y cychwynwyd eu gweithredu erbyn hyn—a byddant yn sicrhau ein bod yn symud ymlaen ar sail gadarn. Byddaf yn amlinellu'r datblygiadau yn fy adroddiad misol i'r Pwyllgor.

### Triniaeth ar gyfer Llau Pen i Blant Ysgol

**C12 Gwenda Thomas:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ynghylch pa mor effeithiol yw'r driniaeth ar gyfer llau pen i blant ysgol? (OAQ21660) [R]

**Jane Hutt:** Anfonwyd bwletin o wybodaeth am gyffuriau, 'Llau Pen', sy'n rhestru triniaethau argymelledig, i holl weithwyr iechyd proffesiynol Cymru. Ceir amrywiaeth o driniaethau priodol ar gyfer llau pen, fodd bynnag, mae'n bwysig dilyn y cyfarwyddiadau er mwyn sicrhau'r canlyniadau gorau.

### Tâl i Ddeintyddion

**C13 Janet Davies:** A wnaiff y Gweinidog roi ei barn ar yr angen i ailystyried sut y mae deintyddion yn cael eu talu? (OAQ21738)

**Jane Hutt:** Yr wyf yn argyhoeddedig y dylid ystyried dulliau newydd o dalu deintyddion, fel yr amlinellwyd yn 'Ffyrdd i Ddiwygio: Strategaeth ar gyfer Gofal Deintyddol Sylfaenol yng Nghymru'. Dylai unrhyw system newydd geisio gwobrwyo deintyddion am y gofal o safon uchel a ddarparant,

gwella'r tryloywder i gleifion, a darparu'r hyblygrwydd i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd geneuol lleol.

### Cofrestru gyda Deintydd y GIG

**C14 Owen John Thomas:** Faint o bobl yn Nghanol De Cymru nad ydynt wedi'u cofrestru gyda deintydd y GIG? (OAQ21654)

**Jane Hutt:** Yn ardal Awdurdod Iechyd Bro Taf, amcangyfrifir bod 346,763 o bobl heb gofrestru â deintydd (ym mis Mehefin 2002).

### Amodau Gwaith Nyrsys y GIG yng Nghymru

**C15 Rhodri Glyn Thomas:** Pa fesurau y bydd y Gweinidog yn eu cyflwyno i wella amodau gwaith nyrsys y GIG yng Nghymru? (OAQ21725)

**Jane Hutt:** Y mae'r strategaeth recriwtio a chadw ddiweddar ar gyfer GIG Cymru yn disgrifio'r camau sy'n angenrheidiol i hwyluso cadw'r holl weithwyr iechyd proffesiynol. Lle bo hynny'n briodol, adeilada ar y strategaethau lleol a fabwysiadwyd gan yr ymddiriedolaethau. Yn ogystal, mae'r grŵp gorchwyl a gorffen ar ofal plant yn astudio cyfleusterau presennol Cymru ar gyfer gofal plant, a'r darpar gyfleusterau. Bydd yn cyflwyno'i argymhellion cyn hir a dylai fod o fudd i'r holl staff gofal iechyd, gan gynnwys nyrsys.

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes

### Cymunedau Difreintiedig

**C8 John Griffiths:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar hynt cefnogi ysgolion sy'n gwasanaethu cymunedau mwyaf difreintiedig Cymru? (OAQ21716)

**Y Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes (Jane Davidson):** Y mae'r adroddiad 'Cau'r Bwlch ym Mherfformiad Ysgolion' yn tystio i gysylltiad rhwng diffyg braint a pherfformiad gwael, fodd bynnag dangosodd hefyd y gallai ysgolion llwyddiannus dorri'r cysylltiad hwnnw. Byddaf yn argymell y canolbwyntir elfen o'r arian refeniw ychwanegol ar gyfer 2003-04, grant arbennig o £32 miliwn, ar ysgolion mewn ardaloedd difreintiedig. Bydd ffocws cynyddol yn y rhaglen grantiau cynnal addysg a hyfforddiant ar ysgolion o'r fath.

### Lefelau Ariannu Ysgolion (Canol De Cymru)

**C9 David Melding:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar lefelau ariannu ysgolion yng Nghanol De Cymru? (OAQ21691)

**Jane Davidson:** Gosodwyd y cyllidebau canlynol gan awdurdodau ar gyfer gwasanaethau ysgolion yn 2002-03: Caerdydd £155.7 miliwn, Rhondda Cynon Taf £134.1 miliwn a Bro Morgannwg £61.7 miliwn. Mae setliad refeniw dros dro llywodraeth leol ar gyfer 2003-04 yn cynnwys cynnydd o 8 y cant yng nghefnogaeth ariannol y Cynulliad i gostau refeniw y cynghorau. Cymer i ystyriaeth bwysedd cyflogau a phrisiau ar wasanaethau awdurdodau lleol, gan gynnwys addysg.

### Ysgolion Cynradd mewn Ardaloedd Gwledig

**C10 David Davies:** Beth sy'n cael ei wneud i gefnogi ysgolion cynradd mewn ardaloedd gwledig? (OAQ21720)

**Jane Davidson:** Rhoesom grant arbennig o £2 filiwn eleni i awdurdodau addysg lleol i helpu ysgolion bach a gwledig chwilio am ffyrdd o weithio ar y cyd a chyda'r gymuned leol. Y flwyddyn nesaf, bydd £3.5 ar gael. Gellir defnyddio'r grant at wasanaethau gweinyddol i brifathrawon a chanddynt yn aml, mewn ysgolion bychain, ymrwymiadau dysgu beichus yn ogystal â chyfrifoldebau rheolaeth.

**Plant yn Gadael Ysgol heb Gymwysterau (Merthyr Tudful)**

**C11 Huw Lewis:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar nifer y plant ym Merthyr Tudful sy'n ymadael â'r ysgol heb gymwysterau? (OAQ21705)

**Jane Davidson:** Mae nifer y disgyblion yng Nghymru sy'n gadael addysg lawn amser heb gymhwyster cydnabyddedig wedi disgyn yn rheolaidd yn y blynyddoedd diweddar ac, fel y cyhoeddais fis Rhagfyr diwethaf, yr ydym yn awr wedi cyrraedd ein nod ar gyfer 2002. Cyfrannodd Merthyr Tudful yn sylweddol at y llwyddiant hwnnw a dylid llongyfarch yr awdurdod am ostwng nifer y disgyblion yn ei ardal sy'n gadael yr ysgol heb gymhwyster cydnabyddedig o 84 disgybl yn 2000 i 48 yn 2002.

**Tanau mewn Ysgolion**

**C12 Ann Jones:** Beth oedd cyfanswm y gost i'r system addysg yn sgîl tanau mewn ysgolion yn y flwyddyn ddiwethaf y mae gennym ffigurau ar ei chyfer? (OAQ21746)

**Jane Davidson:** Ni chesglir y wybodaeth honno yn ganolog. Telir y fath gostau fel arfer o'r yswiriant.

**Systemau Ysgeintio Modern**

**C13 Ann Jones:** Pa asesiad sydd wedi'i wneud o'r arian y gellid ei arbed ar gost tanau mewn ysgolion o osod systemau ysgeintio modern? (OAQ21745)

**Jane Davidson:** Mater i'r awdurdodau addysg lleol yw hwn, ar y cyd â'r awdurdodau tân lleol fel y bo'n briodol.

**Damweiniau mewn Ysgolion**

**C14 David Melding:** Faint o ddamweiniau yr oedd angen triniaeth yn yr ysbyty ar eu cyfer a fu mewn ysgolion yn y flwyddyn ddiwethaf y mae gennym ffigurau ar ei chyfer? (OAQ21677)

**Jane Davidson:** O'r data yn system oruchwylio anafiadau Cymru gyfan, amcangyfrifir, ar gyfartaledd, i 21,000 o anafiadau i blant o bump hyd at 16 oed a ddigwyddodd mewn sefydliadau addysgol gael triniaeth mewn adran ddamweiniau ac achosion brys neu mewn adran ddamweiniau yng Nghymru, yn ystod 1999 a 2000 fel ei gilydd.

**Canlyniadau TGAU yng Nghymru**

**C15 Brian Gibbons:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar ganlyniadau TGAU yng Nghymru yn y blynyddoedd diwethaf? (OAQ21693)

**Jane Davidson:** At ei gilydd, yr oedd canlyniadau 2002 yn galonogol. Bu inni gynnal y cynnydd a gafwyd yn y blynyddoedd diweddar ac, er 1996, yr ydym wedi gwella gan 8 pwynt canran ar y nifer sy'n ennill o leiaf bump TGAU gradd A* i C. Fodd bynnag, ni chawn fod yn hunanfodlon a daliaf ati i roi'r help a'r cymorth sydd ei angen ar athrawon a disgyblion iddynt ragori ar eu gorau blaenorol a pharhau i wella.